SKSJ8

Cynnal ymchwil a chasglu gwybodaeth ar gyfer cynnwys golygyddol

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â chynnal ymchwil ar gyfer cynnwys golygyddol. Gall hyn ymwneud â holl wahanol ffurfiau golygyddol.

Mae'n ymwneud â gofalu eich bod yn deall diben yr ymchwil yn gyfan gwbl a sut caiff ei ddefnyddio.

Mae'n ymdrin â manteisio ar neu ymwneud ag ystod eang o ffynonellau a medru cwestiynu data neu gwestiynu unigolion er mwyn casglu gwybodaeth berthnasol ac arwyddocaol i'r pwnc gaiff ei archwilio.

Mae'n ymdrin â chynnig barnau ystyriol ynghylch dibynadwyedd ffynonellau a chywirdeb y wybodaeth.

Mae'n ymwneud â deall materion hawlfraint ynghyd â chyfyngiadau cyfreithiol a moesegol.

Mae'r Safon hon yn berthnasol i bawb sy'n cynnal gwaith ymchwil er mwyn datblygu cynnwys golygyddol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. adnabod meysydd ymchwil i'w ymchwilio ac sy'n berthnasol i'r cyfarwyddyd cynnwys golygyddol
2. adnabod ffynonellau dichonol o wybodaeth a chyngor dibynadwy pan fo angen gwybodaeth arbenigol
3. cytuno ar y defnydd o ffynonellau arbenigol gyda'r bobl berthnasol a threfnu caiff cytundebau eu cyflwyno lle'n briodol
4. ymwneud â ffynonellau perthnasol mewn ffordd sy'n fwyaf tebygol o ennyn y wybodaeth angenrheidiol
5. cynnal cofnodion a nodiadau cyfweliadau cywir a chynhwysfawr o'r ymchwil sydd wedi'i gynnal
6. gofalu eich bod yn diweddaru cronfeydd data cysylltiadau
7. cadw'r holl wybodaeth yn ymwneud â ffynonellau a'r ymchwil mewn ffordd ddiogel yn unol â phrotocolau cyfundrefnol wedi'u cytuno
8. llunio cwestiynau a defnyddio technegau priodol i fanteisio ar wybodaeth ar gyfer y cyfarwyddyd ymchwil
9. casglu gwybodaeth gan ystod o wahanol ffynonellau er mwyn barnu ei werth a dibynadwyedd
10. gwirio bod yr wybodaeth yn ddilys, cywir ac yn addas i'w ddiben
11. asesu'r holl wybodaeth o ran ei berthnasedd i'r cynnwys golygyddol cyn dewis y deunydd fydd yn cyflawni'r cyfarwyddyd ymchwil orau
12. derbyn cyngor priodol am unrhyw feysydd dadleuol o ran y gyfraith a phryderon yn ymwneud â gwireddiad
13. casglu gwybodaeth yn ymwneud â graddfeydd amser sydd wedi'u cytuno, cyfyngiadau'r gyllideb a gofynion dan gytundeb
14. cyflwyno nodiadau cyfarwyddo trefnus a chryno am eich ymchwil ar ffurf briodol ar gyfer y defnyddiwr

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. diben yr ymchwil a natur y cynnwys golygyddol mae'n berthnasol iddo
2. y graddfeydd amser, terfynau amser a chyfyngiadau adnoddau ar gyfer y gwaith ymchwil yn ymwneud â llunio cynnwys golygyddol
3. sut i ddefnyddio dadansoddeg data a dehongli tueddiadau cyfryngau cymdeithasol
4. sut i rannu cynnig yn dasgau ymchwil ymarferol
5. ffynonellau gwybodaeth dichonol gan gynnwys pobl, cyhoeddiadau a chronfeydd data
6. sut i gysylltu gyda phobl i ennyn gwybodaeth
7. pwysigrwydd cadw nodiadau ymchwil eglur, cynhwysfawr, cywir a chyfredol
8. y gofynion cyfreithiol a phrotocolau cyfundrefnol perthnasol ar gyfer cadw gwybodaeth yn ymwneud ag ymchwil a ffynonellau
9. yr ystyriaethau masnachol, cyfreithiol a moesegol sy'n berthnasol wrth gysylltu gyda ffynonellau a pha drefniadau cytundebol sy'n berthnasol i ffynonellau arbenigol
10. sut i werthuso gwybodaeth o ran perthnasedd, dibynadwyedd a chywirdeb a sut i wirio am ac adnabod anghysondebau ac anghysonderau
11. sut i gynnal ymchwil effeithiol ar y we gan ddefnyddio peiriannau chwilio arbenigol a chyfryngau cymdeithasol
12. yr angen i wirio ffynonellau a phwy ddylech gyfeirio atyn nhw a sut
13. y peryglon cyfreithiol, gwall ffeithiol a thor-codau ymddygiad dichonol ynghlwm â defnyddio ffynonellau oddi ar y we
14. gwerth ffynonellau cyfryngau cymdeithasol ynghyd â'r cyfyngiadau a pheryglon ynghlwm a'i ddefnyddio
15. yr ystyriaethau cyfreithiol a moesegol perthnasol sy'n effeithio ar y defnydd o wybodaeth ar gyfer cynnwys golygyddol
16. unrhyw gyfyngiadau ac amodau ynghlwm â defnyddio gwybodaeth a goblygiadau defnyddio deunyddiau o dan hawlfraint ar gyfer cynnwys golygyddol

SKSJ8

Cynnal ymchwil a chasglu gwybodaeth ar gyfer cynnwys golygyddol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSJ8 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyfryngau a chyfathrebu, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Cyfryngau |
| **Cyfres/Set** | Newyddiaduriaeth |
| **Geiriau Allweddol** | Ymchwil, Gwybodaeth, Cynnwys, Golygyddol, Moeseg, Newyddiaduriaeth |